

CYSTADLEUAETH GWOBWR GOFFA RICHARD A WYN

(Ail Symudiad)

Llynedd cynhaliwyd cystadleuaeth i gofio am gyfraniad Richard a Wyn Jones, Ail Symudiad i'r sin roc Cymraeg. Mae pwyllgor Gŵyl Fel 'Na Mai, gyda chefnogaeth y teulu yn trefnu cystadleuaeth flynyddol i wobrwyo artistiaid ifanc newydd o Sir Benfro, Sir Gâr neu Geredigion a rhoi hwb i'w gyrfa gerddorol.

Bydd cyfle i fandiau neu unigolion gystadlu a chynhelir noson arbennig i glywed y talentau newydd yng Nghanolfan Hermon ar nos Wener, 9fed Chwefror fel rhan o ddathliadau Dydd Miwsig Cymru yn yr ardal.

Beirniaid y gystadleuaeth fydd Dafydd ac Osian Jones, Cleif Harpwood a Mei Gwynedd. Bydd cyflwynwraig Radio Cymru Ffion Emyr yn llywio'r noson a'r wobwr fydd Tlws Her Gwobr Goffa Richard a Wyn ynghyd â £200 a chyfle i berfformio yng Ngŵyl Fel 'Na Mai yng Nghrymych ar ddydd Sadwrn, 4 Mai, 2024.

Yn dilyn y gystadleuaeth edrychwn ymlaen at groesawu Mei Gwynedd a'i Fand i berfformio. Mae tocynnau i'r noson ar werth drwy wefan felnamai.co.uk am bris o £8. Bydd y bar ar agor a bydd bwyd ar werth a chyfle i chi ennill tocyn i'r Wyl a gwobrau eraill. Mae'r trefnwyr yn ddiolchgar iawn i noddwyr y noson ac edrychwn ymlaen i ddigwyddiad hwylus arall yn enw Gŵyl Fel 'Na Mai.